

Cyfarfod cynllunio Tai a Llywodraeth Leol

9 Rhagfyr 2019, CGGC Caerdydd

Yn bresennol

- David Cook, CGGC
- Anna Nicholl, CGGC
- Sally Rees, CGGC
- Paula James, Llywodraeth Cymru
- Simon White, Llywodraeth Cymru
- Helene Hayes, Cyngor ar Bopeth
- Katie McColgan, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
- Matthew Kennedy, Sefydliad Siartredig Tai
- Bryn Hall, Clinks
- Rachel Marshall, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (DTA Cymru)

Ymddiheuriadau

- Noreen Blanluet, Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru
- Iwan Thomas, Planed
- Lara Ramsey, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Chris Johnes, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau
- Kate Evans, Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Ian Davey, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (VAMT)
- Paul Glaze, Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru (CWVYS)
- Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
- Catrin James, CWVYS
- Anne Marie Rogan, YMCA Abertawe

Cofnodion blaenorol

Nododd Rachel y rhaglen a drefnir gan DTA, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Nationwide Foundation. Mae'n cefnogi sefydliadau i gynllunio, cael mynediad at dir, a hyfforddiant i redeg cynlluniau tai cymunedol.

Dywedodd Anna fod Jane Hutt, fel rhan o Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd, wedi cytuno i waith ar bapurau gwyntyllu i ystyried y cyfleoedd a'r heriau, gan gynnwys Brexit - e.e beth allai'r Cynulliad ei wneud ar hawliau, ffurfio economi newydd neu wasanaethau cyhoeddus?

Cyfeiriodd Bryn at yr adolygiad o'r gwasanaeth prawf a sut y comisiynwyd gwasanaethau drwy fframwaith prynu dynamig. Gallai gwaith grŵp yn ymwneud â chydgyhyrchu gyfrannu at hyn.

Camau Gweithredu:

- *Dave i gylchredeg cofnodion o'r Cyfarfod gyda'r Gweinidog unwaith eto.*
- *Rachel i wirio gyda James Burgess yn Llywodraeth Cymru ynghylch hyfforddiant arfaethedig ar gyllid a thai cymunedol*
- *CGGC i gylchredeg gwybodaeth ynglŷn â phapurau gwyntyllu i Jane Hutt*
- *Rhoi cynlluniau peilot Cyngor Ar Bopeth ar gydgyhyrchu ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod cynllunio nesaf.*

- *Y grŵp i ddarparu enghreifftiau ymarferol o lwyddiant comisiynu cydweithredol ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol nesaf.*

Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Nododd gan Paula fod y briff ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau wedi ei ganslo, ond bod modd edrych ar hwn os oedd gan bobl awydd am hynny. Fel arall, gallai CGGC neu'r Sefydliad Tai Siartredig gynnal gweminar.

Amlinellodd Paula brif bwyntiau'r Bil. Mae'r Gweinidogion yn awyddus i'r Bil a'r gwaith partneriaeth ddod ynghyd yn y dyfodol. Mae'r Gweinidog yn cyllido Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi a datblygu awdurdodau lleol er mwyn osgoi problemau a'u hadnabod yn gynt. Nododd Helene ei fod yn werth cadw hyn ar yr agenda gan gofio adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllido gwasanaethau'r trydydd sector gan awdurdodau lleol. Nodwyd nad yw Awdurdodau Lleol yn gofyn am ddata strategol y trydydd sector nac yn eu defnyddio, ac felly mae'n ymddangos nad ydynt yn gweld y sector fel partner cyfartal.

Camau Gweithredu:

- *Paula i wirio'r amserlen ar gyfer cynhyrchu strategaethau cyfranogiad cyhoeddus gan awdurdodau lleol.*
- *Paula i ofyn pwy yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar berfformiad a threfniadau llywodraethu awdurdodau lleol er mwyn trefnu cyfarfod â'r sector ynglŷn â sut mae'r awdurdodau lleol yn cyllido gwasanaethau'r sector.*
- *Angen cynrychiolydd o'r grŵp i fynd i gyfarfod Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol ar 25 Mawrth. Bydd angen cynnig gan y sector ar sut y dylid gweithredu'r Bil.*

Eitemau ar gyfer agenda'r Cyfarfod Gweinidogol nesaf, 16 Mawrth, 2pm-3pm

- Diweddariad ar gydgyhyrchiant gydag enghreifftiau diweddar – ee. Cyngor ar Bopeth ac adolygiad Clinks o'r gwasanaeth prawf– cydgyhyrchiant da.
- Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol
- Ymwneud y trydydd sector â gweithredu'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol, yn enwedig y Cyngor Partneriaethau Cymdeithasol

Camau Gweithredu:

- *Noreen/Sally i baratoi enghreifftiau o gydgyhyrchiant da gan awdurdodau lleol cyn y cyfarfod, yn ogystal ag enghreifftiau gan Matt a Rachel yn ymwneud â phrosiect tai haf Cyngor Sir Benfro.*
- *Dave i ddrafftio fframwaith ar gyfer tri phwynt uchod.*
- *Dave i ddrafftio pwyntiau bwled ar gyfer yr agenda a'u rhannu â'r grŵp. Helene i baratoi astudiaethau achos.*